Cyngor Adnewyddu'r Economi

Adolygiad Cynllun Busnes – Y diweddaraf

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cyngor am hynt gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cynllun Busnes.

## Cefndir

2. Mae Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun yn nodi sut maent yn bwriadu ystyried buddiannau busnes wrth gyflawni eu swyddogaethau.

3. Drafftiwyd Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ("y Cynllun Busnes") ar ôl ymgynghoriad helaeth â Busnes Cymru a TUC Cymru. Gyda chytundeb y Cabinet, cyhoeddwyd y Cynllun yn 2008.

4. Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys y gofyniad y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad, bob dwy flynedd o leiaf, yn rhoi manylion ynglŷn â sut mae'r cynigion yn y Cynllun Buses wedi'u gweithredu. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o bob adroddiad a gyhoeddir gerbron y Cynulliad (Cynllun Busnes 2006, Paragraffau 3(6) a 3(7).

5. Cafodd yr ail Adolygiad o Weithredu ac Effaith y Cynllun Busnes ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2013.

## Diweddariad ar y Sefyllfa

6. Nododd yr Adolygiad wyth argymhelliad sy'n cael eu datblygu. Mae'r amserlen atodedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa pob argymhelliad.

| DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD CYNLLUN BUSNES 2013 | | |
|---|---|---|
| | **Cynnydd** | **Dyddiad Gorffen** |
| **Argymhelliad 1:** | | |
| Dylid diweddaru'r Cynllun Busnes. Dylai'r diweddariad gynnwys dangosyddion ar gyfer pennu llwyddiant. Dylai ystyriaeth o'r ffordd y caiff yr holl strwythurau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru eu hystyried o fewn y bensaernïaeth ymgynghori gael ei chynnwys mewn unrhyw ddiweddariad. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar y dyddiad cau ar gyfer y diweddariad hwn. | Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, gofynnwyd i aelodau ystyried papur ar Strwythur y Cyngor yn y dyfodol. Mae fersiwn ddrafft o'r Cynllun Busnes yn cael ei gwblhau'n awr i'w dosbarthu i'r Partneriaid Cymdeithasol ymgynghori arno. Bydd y Cynllun Busnes diwygiedig yn cael ei gyflwyno yn ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r gofyniad statudol. | Parhaus |
| **Argymhelliad 2:** | | |
| Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol ymrwymo i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Busnes a'r egwyddorion sy'n ei ategu. | WSPU a swyddogion Llywodraeth Cymru i gydweithio i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun. | Parhaus |
| **Argymhelliad 3:** | | |
| Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu a dosbarthu rhestr wedi'i diweddaru'n rheolaidd o'r uwch swyddogion arweiniol ym mhob adran sy'n gyfrifol am y Cynllun Busnes yn eu hadran. Bydd y swyddogion hyn yn gyfrifol am eu hadran yn ymgysylltu yn fwy uniongyrchol â phartneriaid cymdeithasol i ddeall sut maent yn gweithredu. | Dosbarthwyd rhestr i aelodau'r Cyngor. | Wedi'i gwblhau |
| **Argymhelliad 4:** | | |
| Dylid paratoi blaengynllun o faterion i ymgynghori arnynt a'i ddarparu i randdeiliaid. | Yn mynd rhagddo a bydd yn ffurfio rhan o rôl yr uwch swyddog a enwebwyd yn yr Adran sydd â chyfrifoldeb dros y Cynllun Busnes. | Parhaus |
| | | |
| **Argymhelliad 5:** | | |

| DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD CYNLLUN BUSNES 2013 | | |
|---|---|---|
| Pan fydd Adrannau yn cynnig ymgysylltu â rhanddeiliaid, dylent bob amser gynnwys Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU), neu sefydliadau dilynol, fel rhan o'u proses ymgysylltu, a fydd yn galluogi WSPU, neu sefydliad dilynol, i gefnogi'r partneriaid cymdeithasol fel y bo'n briodol. | Mae bellach yn rhan o rôl yr uwch swyddog Adrannol a enwebwyd. | Parhaus a bydd yn rhan o'r adroddiadau diweddaru blynyddol perthnasol. |
| **Argymhelliad 6:** | | |
| Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ddarparu adroddiadau diweddaru blynyddol i Gyngor Adnewyddu'r Economi ar weithredu'r Cynllun Busnes o fewn pob Adran. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar ddyddiad cau blynyddol er mwyn adrodd yn ôl. | Cafodd yr adroddiad diweddaru blynyddol cyntaf ei gyhoeddi fel papurau i'w nodi ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 2 Mehefin. Bydd adroddiad diweddaru blynyddol arall yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r papurau i'w nodi ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 6 Hydref. | Parhaus |
| **Argymhelliad 7:** | | |
| Dylai cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi ganolbwyntio ar faterion sy'n gofyn am wneud penderfyniadau a gweithredu. Dylai'r gynrychiolaeth yng Nghyngor Adnewyddu'r Economi a'r Gweithgor gael ei hadolygu fel rhan o ddiweddariad y Cynllun Busnes (Argymhelliad 1) a dylid gwneud mwy o ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd is-grwpiau sy'n cwmpasu pynciau penodol i'w trafod neu er gwybodaeth. | Yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor, bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ddiweddaru i ystyried y ffordd ymlaen y cytunwyd arni. Bydd diweddariad llafar ar gyfansoddiad y Gweithgor yn cael ei gynnwys fel eitem 6 ar yr Agenda yng nghyfarfod y Cyngor mis Hydref. | Parhaus |
| **Argymhelliad 8:** | | |
| Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod capasiti yn bodoli ac mae'n gyfrifol am<br>asesu a yw Asesiadau Effaith Rheoliadol (RIAs) / Asesiadau Effaith Amgylcheddol (EIAs) wedi ystyried effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig a newidiadau polisi arfaethedig nad ydynt angen deddfwriaeth ar fusnes yn drylwyr. | Mae gan broses ymgynghori Llywodraeth Cymru ganllaw clir i swyddogion ar y gofyniad ar gyfer RIAs. | Parhaus |